



**Ymarferwyr Gofal Nos
Merton Place, Bae Colwyn
Parhaol
£11.66 yr awr**

Yma yn ClwydAlyn, rydym am recriwtio Ymarferwyr Gofal Nos i ymuno â'n tîm Cartref Gofal ym Merton Place.

- **A ydych chi yn chwilio am yrfa mewn gofal sy'n eich gwobrwyo gyda chyfraniad pensiwn cyfatebol o hyd at 8% o'ch cyflog?**
- **A ydych am weithio i gwmni sy'n rhoi blaenoriaeth i'ch llesiant gyda 25 diwrnod o wyliau blynyddol, gan gynyddu i 30 diwrnod gyda gwasanaeth yn ogystal â thâl salwch uwch ar eich diwrnod cyntaf o absenoldeb ar ôl 3 mis o wasanaeth?**
- **A ydych am weithio i gwmni sy'n gwerthfawrogi pwysigrwydd y teulu, gan gynnig 9 mis o dâl mamolaeth uwch gyda 4 mis ar dâl llawn?**
- **A ydych am weithio i gwmni sy'n deall pwysigrwydd cyllido eich gwiriad DBS, costau cofrestru cymhwyster ac yn eich cefnogi i dyfu yn eich gyrfa gofal?**
- **A ydych am weithio i gwmni y mae o bwys iddo bod staff yn cael y bwyd sydd arnyn nhw ei angen i gadw'n iach ac felly'n rhoi prydau am ddim bob diwrnod y byddwch yn y gwaith?**

Os felly, fe allem ni fod yn berffaith i'n gilydd....

Y Cwmni

Mae Tai ClwydAlyn yn ddarparwr tai a gwasanaethau cysylltiedig cyfeillgar i deuluoedd sydd wedi hen sefydlu ac sy'n cael ei barchu ar draws Gogledd Cymru lle mae pobl yn ganolog i bopeth a wnawn.

Rydym ar daith gyffrous a fydd yn ein gweld yn gweithredu cynllun busnes newydd yn canolbwyntio ar daclo tlodi ar draws Gogledd Cymru lle'r ydym yn darparu ein cartrefi a'n gwasanaethau. Mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein gwerthoedd o Ymddiriedaeth, Caredigrwydd a Gobaith. Rydym yn chwilio am rywun sy'n ymgorffori'r gwerthoedd yma'n llwyr!

Ynglŷn â Merton Place:

Mae Merton Place yn cynnig amgylchedd cynnes, cyfeillgar a chartrefol i breswylwyr lle mae lles, gofal a bod yn gyfforddus ac ansawdd bywyd yn brif amcan. Yma yng Nghartref Gofal Merton Place, mae pobl yn ganolog i bopeth a wnawn, ein cydweithwyr, ein preswylwyr, eu teuluoedd a'r cymunedau yr ydym yn byw ynddyn nhw. Mae ein Cartref Gofal yn un 'pum seren' go iawn, sydd wedi ei adeiladu i'r diben i'n cefnogi i ddarparu'r ansawdd bywyd gorau



posibl i'n preswylwyr. Mae ein preswylwyr yn unigolion bregus gydag anghenion nyrzio, gan gynnwys gofal lliniarol.

Am bwy yr ydym yn chwilio?

Rhywun all gefnogi darparu gofal o ddydd i ddydd a sicrhau bod llety diogel, o safon uchel gyda chefnogaeth yn cael ei ddarparu gan rymuso pobl fregus ag anghenion gofal cymdeithasol a'r rhai sy'n byw gyda dementia i fyw mor annibynnol â phosibl a chyflawni eu deilliannau.

Byddwch yn chwaraewr tîm gwirioneddol ac yn dangos y gallu i gefnogi preswylwyr yn effeithiol.

Bydd yr unigolyn yn dangos dull gweithio hyblyg, bydd ganddo bersonoliaeth gadarnhaol a rhagweithiol ac yn gallu goresgyn heriau a sefyllfaoedd anodd gan gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Beth fydd gennych chi neu fyddwch chi'n ei ddysgu i'w gael:

- Lleiafswm o Gymhwyster NVQ/QCF/ Lefel 2 neu barodrwydd i weithio tuag at hyn mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol. Cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar ôl ei gwblhau.
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol (ysgrifenedig a llafar) yn hanfodol.
- Defnyddio cyfrifiaduron a thechnoleg i roi gwybodaeth i mewn a chynllunio gofal - bydd hyfforddiant a chefnogaeth yn cael eu darparu.
- Y gallu i weithio heb gyfarwyddyd yn ogystal ag yn rhan o dîm.
- Y gallu i gefnogi unigolion wrth ddatblygu gwasanaethau gofal o safon uchel.
- Y gallu i weithio'n hyblyg ar system rota a all gynnwys oriau anghymdeithasol.
- Y gallu i weithio ar eich pen eich hun gyda chefnogaeth.
- Yn dangos ymrwymiad i ddull anfeiriadol o weithio.
- Y gallu i fynd i gyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi tu allan i oriau gwaith y byddwch yn cael eich talu amdanynt.
- Y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

Bydd patrymau shifft yn amrywio a chytunir arnynt ar sail rota.

Mae hwn yn amgylchedd gwaith sy'n rhoi boddhad mawr, lle mae gwerthoedd ein cwmni yn cael eu dangos trwy'r ffordd yr ydym yn gweithio a'n diwylliant.

Ar gyfer y rôl hon bydd arnoch angen gwiriad DBS Trylwyr, y byddwn ni'n talu amdano.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan gyn-weithwyr sy'n dymuno gweithio i ni eto!

Os hoffech chi ymgeisio, anfonwch e-bost yn amlinellu pam eich bod yn ymgeisio ac unrhyw brofiad perthnasol sydd gennych a pha oriau fydddech chi'n eu dymuno. Os



oes gennych CV anfonwch hwnnw [at peopleteam@clwydalyn.co.uk](mailto:peopleteam@clwydalyn.co.uk). Os hoffech chi sgwrs am y rôl, yna cysylltwch ag Eleri Williams neu Christina Hale ar 01492 523375.

Rydym bob amser yn ymdrechu i wella ein harferion recriwtio ac efallai y byddwn yn anfon e-bost atoch yn gofyn i chi am adborth a'ch barn am y profiad recriwtio hefo ni, os byddai'n well gennych i ni beidio â chysylltu â chi, amlygwch hyn yn ystod y broses ymgeisio.